



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Canllaw ar yr amserlenni i weithredu
cynlluniau datblygu unigol ar gyfer plant sydd
o oedran ysgol gorfodol neu'n iau

Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, staff addysgu mewn ysgolion a chydlynwyr anghenion addysgol arbennig/cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol.

Trosolwg

Hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o ganllawiau am weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf"). Mae'r canllaw yn amlinellu'r amserlen orfodol arfaethedig ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i symud plant o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Camau i'w cymryd

Caiff y darpariaethau cyfreithiol sydd eu hangen er mwyn cychwyn y Ddeddf a'i gwneud yn bosibl symud o'r system AAA i'r system ADY eu hamlinellu mewn is-ddeddfwriaeth maes o law. Nid yw'n ofynnol, felly, i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gymryd camau ar unwaith, ond efallai y byddant am ymgylfarwyddo â'r canllaw cyn i'r Ddeddf gael ei gweithredu. Efallai y bydd awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion ac eraill sydd â diddordeb am roi eu hadborth ar y canllaw, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: senreforms@llyw.cymru

 [@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)

 [Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn beta.llyw.cymru

Dogfennau cysylltiedig

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
Memorandwm Esboniadol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2017)

Fersiwn Ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol: Chwefror 2017 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Terminoleg	5
Ysgolion	5
'Penderfynu' – y broses o benderfynu a oes gan blentyn ADY	5
'Addasu' – symud dysgwr o'r system AAA i'r system ADY	6
'Paratoi' – y broses o greu CDU	6
'Cynnal' CDU – sy'n golygu sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU ac adolygu'r CDU	6
Plant sydd â chynlluniau eisoes	7
Plant sydd newydd gael gwybod bod ganddynt ADY, neu y tybir bod ganddynt ADY, yn ystod y cyfnod gweithredu	7
Yr amserlen addasu	8
Y flwyddyn weithredu gyntaf	10
Yr ail flwyddyn weithredu	10
Yr amserlen addasu ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol	11
Y flwyddyn weithredu gyntaf	11
Yr ail flwyddyn weithredu	11
Y drydedd flwyddyn weithredu	11
Y camau nesaf	12

Cyflwyniad

Nod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf') yw creu:

- un fframwaith deddfwriaethol i gefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu'n iau sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac i gefnogi pobl ifanc sydd ag ADY ac yn yr ysgol neu mewn addysg bellach
- proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol
- system deg a thryloyw ar gyfer rhoi cyngor a gwybodaeth, a datrys pryderon ac apeliadau.

Rhagwelir y bydd y system ADY a amlinellir yn y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llawn dros gyfnod o dair blynedd. Y cyfnod gweithredu disgwylidig yw Medi 2020 i Awst 2023. Gwneir hyn drwy ei gwneud yn orfodol symud carfanau oedran penodol (yn achos plant o dan oedran ysgol gorfodol) neu garfanau academaidd (yn achos y rheini sydd o oedran ysgol gorfodol) i'r system newydd ym mhob un o'r blynyddoedd gweithredu. Bydd gofyn i awdurdodau lleol (ALLau) a chyrff llywodraethu ysgolion symud dysgwyr yn y carfanau hyn i'r system newydd ym mhob un o dair blynedd academaidd – 2020–21, 2021–22 a 2022–23 – y cyfnod gweithredu (yn achos ALLau, y ddwy flynedd gyntaf fydd y cyfnod gweithredu). Mae Tablau 2 a 3 isod yn nodi pa garfanau a gaiff eu symud ym mha flwyddyn.

Yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) bresennol. Bydd hon yn dirwyn i ben yn raddol yn ystod y cyfnod gweithredu.

Seiliwyd y cynllun gweithredu a amlinellir yn y canllaw hwn ar safbwyntiau rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyhoeddus¹ ar sut y dylid gweithredu'r Ddeddf. O edrych ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, daeth i'r amlwg bod yna gefnogaeth gref i weithredu'r system ADY mewn ffordd raddol. Gan mwyaf, roedd y rhanddeiliaid yn cytuno mai pennu amserlenni cenedlaethol ar gyfer trosglwyddo carfanau penodol o blant i'r system newydd fyddai'r dull hawsaf i'w reoli a'r dull mwyaf cyson. Mae'r dull graddol a nodir yn y canllaw hwn yn rhoi blaenoriaeth i'r plant lleiaf, er mwyn gallu nodi anghenion yn gynnar ac yn effeithiol, ac i'r dysgwyr hynny sy'n agosáu at gerrig milltir penodol o ran cynnydd, er mwyn hwyluso'r broses o gynllunio pontio effeithiol. Yn ogystal â hynny, mae'r dull yma o weithredu hefyd yn trosglwyddo plant sydd â datganiadau o fewn dwy flynedd, o'i gymharu â'r tair blynedd yn achos plant sy'n derbyn darpariaeth drwy Weithredu gan yr Ysgol a thrwy Weithredu gan yr Ysgol a Mwy. Mae'r amserlen gywasgedig yn cydnabod ei bod hi'n debygol y bydd gan blant sydd â datganiadau yr anghenion mwyaf cymhleth a dwys.

¹ *Dewisiadau ar gyfer gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) – canlyniad yr ymgynghoriad* Llywodraeth Cymru (2017)
<https://beta.llyw.cymru/dewisiadau-ar-gyfer-gweithredu-bil-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru>

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o ganllawiau ynghylch sut i roi'r Ddeddf ar waith. Lluniwyd y canllawiau i'w defnyddio gan sefydliadau sydd â dyletswyddau o dan y Ddeddf. Bydd y canllaw hwn o ddiddordeb arbennig i ALLau, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, staff addysgu mewn ysgolion a chydlynwyr anghenion addysgol arbennig/cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol.

Bydd y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (y 'Cod') yn gosod gofynion pellach ar ALLau a chyrff llywodraethu ac yn cynnwys canllawiau ar eu swyddogaethau o dan y Ddeddf. Rhagwelir y bydd y Cod drafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn hwyr yn ystod tymor yr hydref 2018. Disgwylir iddo gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gymeradwyo yn 2019, gyda'r nod o gyhoeddi'r Cod terfynol erbyn diwedd 2019.

Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar weithredu cynlluniau datblygu unigol (CDUau) ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol neu'n iau ac mae'n amlinellu'r amserlen orfodol arfaethedig ar gyfer ALLau a chyrff llywodraethu ysgolion² i symud dysgwyr sydd â chynlluniau AAA – datganiadau a chynlluniau addysg unigol (CAUau)² – i'r system newydd. Mae'r canllaw yn rhoi sylw i'r cam oddi wrth ddatganiadau cyfredol AAA a'r prosesau cysylltiedig a amlinellir yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996, ynghyd â'r trefniadau a amlinellir yn *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004) (y 'Cod AAA')³ mewn perthynas â CAUau i blant sy'n cael darpariaeth drwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy⁴.

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r amserlen fras ar gyfer symud y plant canlynol o'u cynlluniau presennol i'r system newydd, i roi CDU i blant ag ADY:

- plant o dan oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu lleoliad a gynhelir
- plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu lleoliad a gynhelir
- plant o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu lleoliad a gynhelir.

Nid yw'r canllaw yn delio â sefyllfa plant sydd mewn amgylchiadau penodol neu achosion lle mae yna broses benodol ar y gweill o dan y system AAA bresennol. Mae Tabl 1 isod yn rhoi enghreifftiau o achosion nad yw'r canllaw hwn yn rhoi sylw iddynt. Caiff y trefniadau ar gyfer achosion o'r fath eu nodi mewn canllaw arall. Caiff canllawiau eraill eu cyhoeddi hefyd am drefniadau gweithredu ar gyfer pobl ifanc mewn addysg ôl-16 sydd ag ADY, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer pobl ifanc y mae angen lleoliadau arbenigol arnynt.

² Defnyddir y term 'CAU' yn y canllaw hwn i gyfeirio at gynlluniau (beth bynnag yw'r enw arnynt) sy'n amlinellu'r ddarpariaeth addysgol arbennig ar gyfer plant sydd ag AAA sy'n manteisio ar Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy o dan y Cod AAA.

³ <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf>

⁴ Mae Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn cael eu defnyddio yn y canllaw hwn i gyfeirio at ddarpariaeth sy'n cael ei darparu drwy'r rhaglenni hyn fel y nodwyd yn y Cod AAA.

Ni fydd yr amserlen orfodol yn berthnasol i blant nad ydynt yn rhan o'r system AAA ar ddechrau'r cyfnod gweithredu⁵. Caiff y grŵp hwn o blant eu gosod yn y system ADY o'r dechrau'n deg, a bydd angen i ALLau ac ysgolion ddilyn yr amserlenni ar gyfer nodi ADY a pharatoi cynlluniau y darperir ar eu cyfer yn y Cod.

Tabl 1: Amgylchiadau penodol ac achosion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y canllaw

Pobl ifanc dros oedran ysgol gorfodol
Plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol
Plant o oedran ysgol gorfodol neu'n iau sydd yn: <ul style="list-style-type: none"> • cael eu haddysg y tu allan i'r ysgol (EOTAS)⁶ • cael eu haddysgu mewn ysgol annibynnol⁷ • dewis derbyn addysg yn y cartref • cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 • cael eu cadw mewn llety ieuencid perthnasol • wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad.
Plant o oedran ysgol gorfodol neu'n iau sy'n aros am ganlyniad proses o dan y system bresennol. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, blant sydd: <ul style="list-style-type: none"> • yn aros am ganlyniad asesiad o ddatganiad AAA • wedi cael datganiad drafft ac nid yw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r ALL wedi dod i ben • wedi cael datganiad terfynol ac nid yw'r cyfnod ar gyfer apelio i'r Tribiwnlys wedi dod i ben • wedi clywed gan yr ALL na fyddant yn destun datganiad ac nid yw'r cyfnod ar gyfer apelio wedi dod i ben.

Drwy gydol y canllaw gweithredu hwn, defnyddir 'AAA' a'r derminoleg gysylltiedig i gyfeirio at y system bresennol o dan Ddeddf Addysg 1996⁸ (gan gynnwys *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*), a defnyddir 'ADY' a'r derminoleg gysylltiedig i gyfeirio at y system newydd y bwriedir ei chyflwyno o fis Medi 2020, drwy'r Ddeddf, y rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf a'r Cod.

Caiff y darpariaethau cyfreithiol sydd eu hangen er mwyn cychwyn y Ddeddf a'r rheini sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer symud oddi wrth y system AAA i'r system ADY newydd eu hamlinellu mewn is-ddeddfwriaeth i'w llunio gan Weinidogion Cymru maes o law. Yn y cyfamser, mae'r canllaw hwn yn adlewyrchu cynlluniau Llywodraeth Cymru o ran y ddarpariaeth i'w chynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth honno. Bydd canllawiau diweddarach yn rhoi manylion pellach, gan gynnwys gwybodaeth

⁵ Hynny yw, os ydynt newydd eu dynodi'n blant ag ADY, neu os credir bod ganddynt ADY, ar unrhyw adeg drwy gydol y cyfnod gweithredu, bydd y system newydd yn gymwys beth bynnag yw'r cohort maent yn perthyn iddo.

⁶ Sy'n cynnwys plant sy'n mynd i ysgol annibynnol lle bo'r lleoliad yn cael ei ariannu gan yr ALL.

⁷ Sy'n eithrio plant sy'n mynd i ysgol annibynnol lle bo'r lleoliad yn cael ei ariannu gan yr ALL.

⁸ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/contents> (Saesneg yn unig)

am y trefniadau arfaethedig ar gyfer sefyllfaoedd eraill, ac mae'n bosibl y caiff y canllaw hwn ei ddiwygio wrth i fanylion y trefniadau gael eu mireinio ymhellach.

Terminoleg

Defnyddir nifer o dermau yn y canllaw hwn, ac wrth drafod y system newydd, sy'n ymwneud â'r broses o addasu cynlluniau a pharatoi CDUau. Maent wedi'u nodi isod.

Ysgolion

Roedd dyletswyddau'r Ddeddf a oedd yn berthnasol i ysgolion wedi'u gosod ar gyrrff llywodraethu ysgolion. Fodd bynnag, yn y canllaw hwn, wrth ddisgrifio dyletswydd sydd wedi'i osod ar y corff llywodraethu (neu a allai gael ei osod arno mewn is-ddeddfwriaeth nad yw wedi'i llunio eto), er hwylustod defnyddir 'ysgol' yn hytrach na chyfeirio at gorff llywodraethu'r ysgol bob tro. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r system yn gweithio'n ymarferol hefyd, gan mai staff sy'n gweithredu ar ran y corff llywodraethu sy'n cyflawni swyddogaethau'r cyrrff llywodraethu gan amlaf.

'Penderfynu' – y broses o benderfynu a oes gan blentyn ADY

Yn gyffredinol, pan dynnir sylw ALI neu ysgol yng Nghymru, neu lle ymddengys iddynt, fod gan blentyn ADY, bydd yn rhaid i'r ALI neu'r ysgol benderfynu a oes gan y plentyn ADY⁹. Yn y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at y broses hon fel 'penderfynu ynghylch' neu 'nodi' ADY. Lle bydd yr ysgol neu'r ALI yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, fel rheol bydd gofyn i'r ysgol neu'r ALI baratoi a chynnal CDU ar gyfer y plentyn¹⁰.

O dan y Ddeddf, lle nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir, bydd yr ALI yn gyfrifol am benderfynu a oes gan y plentyn ADY ac, os felly, am baratoi a chynnal CDU. Lle bydd plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir, fel rheol bydd yr ysgol yn gyfrifol am benderfynu a oes gan y plentyn ADY ac, os felly, am baratoi a chynnal CDU. O dan rai amgylchiadau, megis lle na all yr ysgol benderfynu'n iawn hyd a lled neu natur yr ADY, bydd modd i'r ysgol gyfeirio achos y plentyn i'r ALI i benderfynu yn ei gylch¹¹. Fel rheol, lle bydd plentyn yn derbyn gofal gan ALI yng Nghymru, yr ALI fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes gan y plentyn ADY, hyd yn oed os yw'r plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru¹².

⁹ Adrannau 11, 13, 18 a 40 o'r Ddeddf. Diffinnir ADY yn adran 2 y Ddeddf, a darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn adran 3.

¹⁰ Adrannau 12, 14, 19 a 40 o'r Ddeddf. Yn gyffredinol, bydd ysgolion a gynhelir yn gyfrifol am baratoi a chynnal CDUau ar gyfer y rhan fwyaf o'u dysgwyr sydd ag ADY. Bydd ALIau yn gyfrifol am baratoi a chynnal CDUau ar gyfer rhai dysgwyr, fel rheol y plant a'r bobl ifanc hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a/neu ddifrifol a'r rheini nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir na sefydliad addysg bellach yng Nghymru (gan gynnwys y rheini sy'n iau nag oedran ysgol). Bydd ALIau hefyd yn gyfrifol am baratoi a chynnal CDUau mewn achosion penodol, gan gynnwys y plant hynny sydd wedi'u cofrestru mewn dau leoliad neu sy'n derbyn gofal gan ALI.

¹¹ Adran 12(2) o'r Ddeddf.

¹² Adran 18 o'r Ddeddf. Nid yw hyn yn wir os yw'r plentyn mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, ac nid yw'n wir yn achos plant sydd efallai yn derbyn gofal at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond nad ydynt yn derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf (gweler adran 15 o'r Ddeddf).

‘Addasu’ – symud dysgwr o’r system AAA i’r system ADY

Bydd y broses o symud dysgwr o’r system AAA i’r system ADY, os oes gan y dysgwr ADY, yn golygu addasu’r cynllun presennol – CAU neu ddatganiad – i CDU. Bydd angen paratoi CDU, ac unwaith y bydd yn ei le, daw’r cynllun AAA presennol i ben. Yn y canllaw hwn, rydym yn cyfeirio at y broses hon fel ‘addasu’.

Rhaid addasu’r cynlluniau presennol, a rhaid sefydlu CDUau newydd, erbyn diwedd y flwyddyn ysgol academaidd pan fydd disgwyl i’r garfan academaidd dan sylw addasu (gweler Tablau 2 a 3 ar dudalennau 8 a 9). Gellid eu haddasu pan fydd yn amser adolygu’r cynllun presennol. Bydd y broses addasu wedyn yn disodli’r adolygiad.

Bydd ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhan annatod o’r system ADY, gan gynnwys y broses o addasu’r cynlluniau presennol a pharatoi CDUau. Fel rhan o’r gwaith o baratoi ar gyfer gweithredu’r system ADY, efallai y bydd ALIau ac ysgolion am fabwysiadu arferion sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ddatblygu ac adolygu CAUau a datganiadau o dan y system AAA¹³. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl trosglwyddo gwybodaeth sydd eisoes wedi’i datblygu drwy ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, a’i chofnodi mewn CAU neu ddatganiad, i CDU, a allai hwyluso’r broses addasu.

‘Paratoi’ – y broses o greu CDU

Lle penderfynwyd bod gan blentyn ADY, rhaid paratoi CDU ar gyfer y plentyn. Yn ystod y cyfnod gweithredu, yn achos y rhan fwyaf o CDUau bydd y gwaith paratoi yn golygu addasu’r cynlluniau presennol yn CDUau. Ni fydd angen addasu cynllun lle ymddengys ei bod yn bosibl fod gan blentyn na nodwyd yn flaenorol ei fod yn rhan o’r system AAA, ADY. Mewn achosion o’r fath, ni fydd cynllun eisoes yn bodoli i’w drosi a chaiff cynllun newydd – CDU – ei baratoi.

‘Cynnal’ CDU – sy’n golygu sicrhau’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU ac adolygu’r CDU

Rhaid i’r ysgol neu’r ALI sy’n cynnal CDU sicrhau’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) a ddisgrifir yn y CDU a, lle bydd CDU yn nodi y dylid darparu’r DDdY drwy’r Gymraeg, rhaid i’r ysgol neu’r ALI gymryd pob cam rhesymol i sicrhau’r ddarpariaeth honno drwy’r Gymraeg¹⁴.

¹³ Mae mwy o wybodaeth am ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn i’w gweld yn *Ymarfer sy’n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2015)

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/151210-person-centred-practice-in-education-cy.pdf>

a hefyd *Pecyn cymorth adolygiadau sy’n canolbwyntio ar unigolion: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2015)

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-cy.pdf>

¹⁴ Yr eithriad yw lle bydd y CDU yn nodi mai corff GIG sydd i sicrhau’r DDdY. Os felly, dyletswydd y corff GIG yw sicrhau’r DDdY honno, ac os nodir bod y DDdY honno i’w chyflwyno drwy’r Gymraeg, rhaid i’r corff GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau’r ddarpariaeth honno drwy’r Gymraeg: adrannau 20 a 21 o’r Ddeddf.

Amserlen weithredu ar gyfer symud i gynlluniau datblygu unigol

Plant sydd â chynlluniau eisoes

Y bwriad yw dechrau disodli cynlluniau sy'n cefnogi dysgwyr sydd ag AAA ar hyn o bryd â CDUau o fis Medi 2020. Bydd y broses o addasu datganiadau dysgwyr yn digwydd yn ystod blynyddoedd academaidd 2020–21 a 2021–22. Caiff plant a gefnogir drwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy eu symud yn ystod blynyddoedd academaidd 2020–21, 2021–22 a 2022–23.

Hyd nes y bydd plentyn wedi symud i'r system ADY, bydd darpariaethau'r system AAA yn parhau mewn grym. Rhaid i ALLau a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir barhau i gydymffurfio â Deddf 1996 a'r rheoliadau a wnaed oddi tani tra byddant yn berthnasol i'r plentyn. Bydd is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf, a chanllawiau a gaiff eu llunio yn y dyfodol, yn delio â'r ffordd y bydd darpariaethau'r system AAA yn parhau i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod gweithredu.

Plant sydd newydd gael gwybod bod ganddynt ADY, neu y tybir bod ganddynt ADY, yn ystod y cyfnod gweithredu

Dilynir y system ADY yn achos plant nad ydynt yn rhan o'r system AAA ar ddechrau'r cyfnod gweithredu. Hynny yw, os byddant newydd gael gwybod bod ganddynt ADY, neu y tybir bod ganddynt ADY, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gweithredu, dilynir y system newydd, beth bynnag yw carfan y plant.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r trefniadau a'r amserlen arfaethedig ar gyfer symud plant o oedran ysgol gorfodol neu'n iau, y nodwyd bod ganddynt AAA ac a gefnogir â datganiad neu drwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, i'r system ADY.

Yr amserlen addasu

ALLau

Mae Tabl 2 isod yn amlinellu amserlen ddwy flynedd ar gyfer symud plant i'r system ADY sydd:

- yn mynychu ysgol a gynhelir ac sydd â datganiad
- o dan oedran ysgol gorfodol, nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir ac sydd â datganiad neu'n cael eu cefnogi gan Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar neu Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy.

Mae'r tabl yn cynnwys nifer y plant ym mhob un o garfanau'r oedran a'r flwyddyn academaidd, o'u geni hyd at Flwyddyn 10, a oedd â datganiad yn 2017¹⁵. Gan ddefnyddio ffigurau hyn at ddibenion enghreifftiol, byddai ALLau yn addasu cyfanswm o ryw 6,200 o ddatganiadau i CDUau yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf a 4,100 yn yr ail flwyddyn weithredu.

Tabl 2: Amserlen ar gyfer addasu datganiadau; ac ar gyfer addasu CAUau plant a gefnogir gan Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy nad ydynt yn mynychu lleoliad a gynhelir

	O dan 2 oed	Meithrinfa 1	Meithrinfa 2	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
Nifer y cynlluniau – y flwyddyn weithredu gyntaf	*	100	300		700		800		800		1,100		1,200	1,200	
Nifer y cynlluniau – yr ail flwyddyn weithredu					500		700		900		900		1,100		

* nid ydym yn gwybod

Ffynhonnell: Data CYBLD 2017

Allwedd	
	Crewyd y cynlluniau yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf a'u hadolygu yn y blynyddoedd dilynol
	Crewyd y cynlluniau yn ystod yr ail flwyddyn weithredu a'u hadolygu yn y blynyddoedd dilynol

¹⁵ Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf. Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer nifer y plant o dan oedran ysgol gorfodol sydd ag AAA ond sydd heb ddatganiad ac nad ydynt yn mynychu lleoliad a gynhelir.

Ysgolion

Mae Tabl 3 isod yn amlinellu amserlen dair blynedd ar gyfer addasu cynlluniau plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir sy'n cael eu cefnogi drwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Mae'r tabl yn cynnwys nifer y plant ym mhob un o garfanau'r flwyddyn academaidd o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 10, a oedd yn cael darpariaeth drwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn 2017¹⁶. Gan ddefnyddio'r ffigurau hyn at ddibenion enghreifftiol, amcangyfrifir y bydd ysgolion yn addasu hyd at ryw 40,700 o gynlluniau i CDUau yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf, 28,600 yn ystod yr ail flwyddyn weithredu a 15,900 yn y drydedd flwyddyn weithredu.

Tabl 3: Amserlen ar gyfer addasu cynlluniau plant mewn lleoliadau a gynhelir sy'n cael eu cefnogi drwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy

	Meithrinfa 1	Meithrinfa 2	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
Nifer y cynlluniau – y flwyddyn weithredu gyntaf	200	2,400		6,700		8,500		8,500		7,900			6,500	
Nifer y cynlluniau – yr ail flwyddyn weithredu				4,800				8,900				7,700	7,200	
Nifer y cynlluniau – y drydedd flwyddyn weithredu							7,812				8,110			

Ffynhonnell: Data CYBLD 2017

Allwedd	
	Crewyd y cynlluniau yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf a'u hadolygu yn y blynyddoedd dilynol
	Crewyd y cynlluniau yn ystod yr ail flwyddyn weithredu a'u hadolygu yn y blynyddoedd dilynol
	Crewyd y cynlluniau yn ystod y drydedd flwyddyn weithredu a'u hadolygu yn y blynyddoedd dilynol

¹⁶ Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf.

Yr amserlen addasu ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol

Caiff cynlluniau plant o dan oedran ysgol gorfodol eu haddasu yn ystod dwy flwyddyn academaidd – 2020–21 a 2021–22.

Y flwyddyn weithredu gyntaf

Yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf, bydd ALLau yn:

- addasu datganiadau plant o adeg geni hyd at a chan gynnwys oedran ail flwyddyn meithrin (3–4 oed)
- addasu cynlluniau plant o adeg geni hyd at a chan gynnwys oedran ail flwyddyn meithrin (3–4 oed) nad ydynt yn mynychu lleoliad a gynhelir ond a gefnogir mewn lleoliad nas cynhelir gan Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy.

Bydd ysgolion a gynhelir yn gyfrifol am addasu CAUau plant a gefnogir gan Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy yn ystod y flwyddyn feithrin gyntaf a gynhelir (2–3 oed) ac ail flwyddyn meithrin a gynhelir.

Ar ddiwedd y flwyddyn weithredu gyntaf, dylai fod gan bob plentyn sydd ag ADY, o adeg geni hyd at a chan gynnwys ail flwyddyn meithrin, CDU.

Yr ail flwyddyn weithredu

Dim ond un garfan o blant sydd ag ADY sydd o dan oedran ysgol gorfodol fydd heb CDU ar ddiwedd y flwyddyn weithredu gyntaf – sef y rheini a oedd yn y flwyddyn Dderbyn yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf. Caiff y garfan hon ei haddasu yn ystod yr ail flwyddyn weithredu, yn ystod ei blwyddyn gyntaf mewn addysg orfodol.

Yr amserlen addasu ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol

Dwy flynedd yw hyd y cyfnod gweithredu ar gyfer addasu cynlluniau plant o oedran ysgol gorfodol os oes ganddynt ddatganiad, a thair blynedd os oes ganddynt CAU ac yn cael darpariaeth drwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy.

Y flwyddyn weithredu gyntaf

Fel y nodir yn Nhablau 2 ar dudalennau 8, yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf bydd ALLau yn addasu datganiadau, ar gyfer plant sydd yn y blynyddoedd academaidd canlynol: 1, 3, 5, 7, 9 a 10.

Fel y nodir yn Nhabl 3 ar dudalen 9, yn ystod y flwyddyn gyntaf o roi hyn ar waith, bydd ysgolion yn addasu cynlluniau ar gyfer plant ar Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar (EYA), Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy (EYA +), Gweithredu gan yr Ysgol (SA) neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy (SA +) ar gyfer plant yn y blynyddoedd academaidd canlynol: 1, 3, 5, 7 a 10.

Yr ail flwyddyn weithredu

Yn ystod yr ail flwyddyn weithredu, caiff cynlluniau plant â datganiadau a'r rheini sy'n cael darpariaeth drwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar (EYA), Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy (EYA +) neu Weithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy sydd yn y blynyddoedd academaidd canlynol eu haddasu:

Datganiadau: 1, 3, 5, 7 a 9

Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Weithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy: 1, 5, 9 a 10.

Y drydedd flwyddyn weithredu

Yn ystod y drydedd flwyddyn weithredu, caiff cynlluniau plant sy'n cael darpariaeth drwy Weithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy sydd yn y blynyddoedd academaidd canlynol eu haddasu: 4 ac 8.

Y camau nesaf

Fel y nodwyd uchod, caiff canllawiau pellach eu cyhoeddi a fydd yn rhoi gwybodaeth am y trefniadau arfaethedig ar gyfer plant mewn amgylchiadau penodol, megis plant sy'n derbyn gofal gan yr ALL, a threfniadau ar gyfer achosion lle mae yna broses benodol ar y gweill o dan y system AAA, megis apêl ynghylch datganiad.

Caiff canllawiau eraill eu cyhoeddi hefyd am drefniadau gweithredu'r system ADY ar gyfer pobl ifanc mewn addysg ôl-16, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer pobl ifanc y mae angen lleoliadau arbenigol arnynt.

Mae'n bosibl y caiff y canllaw hwn ei ddiweddarau wrth i fanylion y trefniadau gael eu mireinio ymhellach. Rydym yn croesawu adborth gan ysgolion, ALLau a phartïon eraill sydd â diddordeb ynghylch y dull gweithredu arfaethedig a nodir yn y canllaw hwn. Gallwch anfon eich adborth drwy ebost i senreforms@llyw.cymru

Bydd y Cod yn gosod gofynion ar ALLau a chyrrff llywodraethu ac yn cynnwys canllawiau ar eu swyddogaethau o dan y Ddeddf. Rhagwelir y bydd y Cod drafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn hwyr yn ystod tymor yr hydref, 2018. Disgwylir iddo gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gymeradwyo yn 2019, gyda'r nod o gyhoeddi'r Cod erbyn diwedd 2019. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen i drawsnewid y system ADY i'w gweld yn <https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/?skip=1&lang=cy>

Bydd arweinwyr rhanbarthol y broses o drawsnewid y system ADY yn gweithio gyda sefydliadau a fydd â dyletswyddau o dan y Ddeddf. Gall yr arweinwyr trawsnewid roi gwybodaeth am y trefniadau trawsnewid a gweithredu penodol ar gyfer pob ardal. Mae gwybodaeth am rôl yr arweinwyr trawsnewid ar gael yn <https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/implementation-transition-support/?skip=1&lang=cy>